Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Briff 7 Munud

APR GWASB 3 / 2019

## Argymhellion

* Dylai'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ddarparu canllawiau aml-asiantaeth ar weithio gyda gofalyddion a theuluoedd gelyniaethus ac anghydweithredol i oedolion mewn perygl.
* Dylai'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ystyried Polisi 'Nis Cyflwynwyd' ar gyfer oedolion mewn perygl a phlant sydd heb ymddangos ar gyfer apwyntiad gydag unrhyw asiantaeth.
* Dylai asiantaethau ystyried sut maent yn rheoli'r broses o rannu gwybodaeth pan fo cleifion/cleientiaid yn enwebu rhywun arall i gyd-drefnu eu gofal.
*Byddai'n fuddiol i staff rheng flaen fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ymddygiad gormesol a gorfodaeth, gan gynnwys sut i ddarparu'r manylder gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer achos troseddol, a defnydd o asesiadau risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu.
* Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ystyried sut i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ba bryd y dylid ystyried awdurdodaeth gynhenid y llys mewn achosion cymhleth a difrifol.
* Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ystyried sut i godi ymwybyddiaeth a defnydd o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac asesiadau galluedd.
*Dylai hyfforddiant diogelu gynnwys enghreifftiau o achosion cymhleth i ddarlunio pwysigrwydd ystyried yr holl ffactorau sy'n effeithio ar oedolyn mewn perygl, a pherthynas hyn â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
* Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol rannu'r Adolygiad Ymarfer Oedolion hwn gyda'r Bwrdd Partneriaeth VAWDASV (Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol) lleol.

## Cyfle Dysgu

**Myfyriwch** ar yr achos a drafodwyd a meddwl sut y gallai'r sefyllfa hon fod wedi codi yn eich gwaith gydag unigolion agored i niwed?

**Gofynnwch** a oes unrhyw debygrwydd mewn achosion y buoch chi'n gweithio arnynt neu sefyllfaoedd a welsoch chi?

**Beth** fyddech chi wedi'i wneud mewn sefyllfa Debyg wrth weithio gydag unigolion agored i niwed a beth yw'r rhwystrau i ymarfer yn eich sefydliad chi?

**Enwch** gefnogaeth allweddol i chi'ch hun yn eich tîm.

## Cyd-destun

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Oedolion estynedig gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan ar argymhelliad y Cyd Grŵp Adolygu Achosion yn unol â 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 - Adolygiadau Ymarfer Oedolion Aml-asiantaethol' Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r adolygiad yn ymwneud â marwolaeth menyw 48 mlwydd oed ag anabledd dysgu, a elwir o hyn ymlaen yn 'Ann' yn unol â dymuniadau ei theulu.




## Cefndir

Mabwysiadwyd Ann yn 3 mis oed. Mynychodd ysgol arbennig a chyrsiau coleg arbennig. Doedd Ann erioed wedi byw'n annibynnol. Cyfarfu â'i gŵr a'i briodi, ac fe symudon nhw i Gymru i ymgymryd â busnes yno. Roedd ganddynt un ferch. Daeth ei phriodas i ben oherwydd cam-drin domestig, ac roedd Ann yn methu gofalu am ei merch, felly aeth honno i fyw gyda'i mam-gu a'i thad-cu ar ochr ei mam yn Lloegr. Roedd Ann yn mwynhau gweithgareddau cymdeithasol, crefftwaith a mynd i glybiau; roedd hi'n hoffi bod gyda phobl. Roedd hi'n mwynhau achlysuron pan ddeuai'r teulu ynghyd, a phan allai, byddai'n ymweld â'i theulu a'i merch yn Lloegr.

## Themâu Dysgu Allweddol

- Gweithio gyda gofalyddion/teuluoedd gelyniaethus ac anghydweithredol

-Ni adawodd Oedolyn B i'r gwasanaethau gael mynediad at Ann a gweithredodd fel pwynt cyswllt.

- Materion Gofal Sylfaenol

-Ysgrifennodd ymarferwr at Oedolyn B am ei ymddygiad ac yna fe symudodd yntau Ann i feddygfa arall.

- Defnyddio deddfwriaeth, yn benodol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

- Defnyddiodd ymarferwyr brosesau diogelu, ac roeddent wedi nodi gormes a rheolaeth ond heb ystyried sut y gallen nhw fod wedi defnyddio hyn. Gellid bod wedi ystyried effaith ei ymddygiad ar ei gallu hi i wneud penderfyniadau.

## Gormes a gorfodaeth

Gwelodd ymarferwyr fod ymddygiad Oedolyn B yn ormesol a llywodraethol. Byddai'n atal ymarferwyr rhag cael mynediad ac yn ymddwyn yn ymosodol ac yn cyflwyno cwynion fel modd o reoli mynediad. Datgelodd y teulu hanes hir o ymddygiad gormesol a'i gwnâi hi'n gynyddol anodd cael mynediad. Pan ddechreuodd y berthynas, byddai Ann yn ymweld â'i theulu yn Lloegr gydag Oedolyn B. Dros amser, meddent, aeth y cyswllt yn llai a daeth yr ymweliadau i ben. Daliodd merch Ann i ymweld â hi ond byddai Oedolyn B yn gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus, yn ei dilyn, ac yn atal Ann rhag gadael y tŷ. Canlyniad y patrwm ymddygiad hwn oedd fod cyswllt rhwng Ann a'i merch wedi lleihau i ambell alwad ffôn achlysurol, a phan dderbyniwyd Ann i'r ysbyty doedd hi ddim wedi gweld ei merch ers 4 blynedd. Dros amser aeth ei diagnosis Anabledd Dysgu ar goll i'r gwasanaethau. Roedd pryderon ynghylch y penderfyniadau roedd hi'n eu gwneud. Dylai hyn fod yn rheswm i amau galluedd unigolyn ac i gynnal asesiad.

## Bywyd Ann gydag Oedolyn B

I gysylltu ag Ann roedd rhaid mynd drwy Oedolyn B.
Ym Mehefin 2017 gwnaeth y meddyg teulu atgyfeiriad gan nodi dylanwad a rheolaeth Oedolyn B. Bylchog oedd y cysylltiad â'r gwasanaethau a gwnaed ymweliad ar y cyd gan yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mawrth 2018. Roedd Oedolyn B yn ymosodol iawn tuag at staff yr Awdurdod Lleol, a dim ond y Swyddog Heddlu gafodd fynediad i'r tŷ. Cwrddodd y Swyddog Heddlu ag Ann am Ychydig o amser cyn i Oedolyn B ddechrau cynhyrfu a mynnu'n ymosodol fod y Swyddog yn gadael yr eiddo. Yn dilyn hyn, trafodwyd mesurau diogelu pellach ac yn Ebrill 2018 cafwyd mynediad dan Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO) dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Defnyddiwyd yr APSO ar 10 Ebrill 2018 i gael mynediad at Ann. Ar y dyddiad hwn, gwnaed ymweliad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu. Llwyddodd staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i siarad ag Ann i asesu ei lles a'i dymuniadau, ac yn dilyn ymweliad gan y meddyg teulu yn ddiweddarach yr un diwrnod, cytunodd i gael ei derbyn i'r ysbyty. Yn yr ysbyty y bu Ann wedyn o ddyddiad gweithredu'r APSO hyd ei marwolaeth drist ar 28 Ebrill 2018.

Hoffai Tîm Diogelu Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i Fwrdd Diogelu Manceinion a Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Swydd Gaerhirfryn am eu cymorth gyda'r templed a'u harweiniad gwreiddiol ar sesiynau briffio 7 munud.

Ionawr 2018